

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2023

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y paragraff newydd 11(1A) o Atodlen 12 (a fewnosodwyd gan reoliad 4(a)) yn cyflawni'r effaith gyfreithiol angenrheidiol ac nad oes amwysedd o ran yr ystyr ac, o ganlyniad, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen diwygiad. Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei ddiwydrwydd, yn nodi'r sylwadau a wnaed ac yn ymdrechu i lynu at y canllawiau drafftio a nodir yn "Drafftio Deddfau i Gymru" lle bynnag y bo modd.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu dolen i'r Rheoliadau drafft a'r Memorandwm Esboniadol â chynrychiolwyr landlordiaid ac asiantiaid gosod eiddo gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl, Propertymark a Rhentu Doeth Cymru. Yn amodol ar gytundeb y Senedd i'r Rheoliadau, mae Rhentu Doeth Cymru wedi cytuno i rannu diweddariad yn uniongyrchol â landlordiaid. Byddwn hefyd yn diweddarau'r canllawiau Rhentu Cartrefi perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i landlordiaid ynghylch y mater hwn.